



**Academi Genedlaethol ar gyfer
Arweinyddiaeth Addysgol Cymru
National Academy for
Educational Leadership Wales**

**Cofnodion/Nodiadau Gweithredu o Gyfarfod y Bwrdd, 16 Gorffennaf 2021 trwy
Teams**

Yn bresennol: Sue Davies (SD) (Cadeirydd)
Tegwen Ellis (TE) (Prif Weithredwr)
Claire Williams (CW)
Mike James (MJ)
Martin Price (MP)
Davina Payne (DP)
Paul Marshall (PM)
John Graystone (JG)
Rosemary Jones OBE (RJ)
Kate Lewis (KL)
Michaela Renkes (LIC)
Karen Lawrence (KL) – *ymunodd â'r cyfarfod yn ddiweddarach*
Gaynor Ace (GA) (Ysgrifenyddiaeth)

1. Croeso, cadarnhau cofnodion a chamau gweithredu'r cyfarfod blaenorol

Agorodd SD y cyfarfod drwy ystyried ei phresenoldeb yng nghyfarfod olaf Carfan 1 ddoe a ddatlodd eu cyflawniadau dros y blynyddoedd diwethaf.

Rhoddodd MR ddiweddariad byr ar y broses o adnewyddu'r Bwrdd sydd ar ddod lle'r oedd Swyddfa'r Comisiynydd wedi cytuno mai dim ond hyd at 50% o aelodau'r Bwrdd fyddai'n cael eu hadnewyddu ym mis Ebrill 2022. Bydd y broses benodi yn dechrau yn yr hydref. Bydd angen i MR ddatblygu cyngor i'r Gweinidog ar sut i symud ymlaen gyda hyn a bydd yn troi at SD fel y Cadeirydd presennol am argymhellion.

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gofnod gwir a chywir. Cyfeiriodd SD at y Log Gweithredu o gyfarfod blaenorol y Bwrdd a nododd fod y rhan fwyaf o'r camau gweithredu wedi'u cwblhau erbyn hyn.

Mewn perthynas â chamau gweithredu parhaus:

- Cam Gweithredu 169 – Dim ond y noson gynt yr oedd TE wedi derbyn yr adroddiad terfynol ar arweinyddiaeth system, felly awgrymodd y dylid dosbarthu hyn gyda'r set nesaf o bapurau'r Bwrdd ym mis Hydref
- Cam Gweithredu 171 – Roedd SD wedi mynychu lansiad Comisiwn Carfan 2 ac wedi'i ganmol yn fawr. Rhannwyd yr adroddiad â'r Bwrdd Cyngori ar Recriwtio a Chadw Athrawon

2. Adroddiad y Pwyllgor Cyllid / Adnoddau Dynol

Darparodd MP adroddiad ar gyfarfod y pwyllgor Cyllid/Adnoddau Dynol a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2021.

Roedd trafodaeth ddefnyddiol wedi'i chynnal ynghylch llesiant, a chynigiwyd penodi Cyfarwyddwr Cyswllt ar gyfer materion llesiant. Roedd y Bwrdd yn cytuno â hyn, ac yna cytunwyd i roi'r rôl hon o dan gylch gwaith Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid/Adnoddau Dynol. Roedd TE yn falch o gyhoeddi bod y sefydliad wedi cyrraedd safon aur yr Asesiad Buddsoddwyr mewn Llesiant.

Cytunwyd ar y Polisi Perfformiad a Datblygu ac mae wedi'i gopïo i'r Bwrdd er gwybodaeth.

Roedd y cyfrifon wedi symud o warged mawr i ddiffyg mawr. Eglurodd y cyfrifydd yn y pwyllgor mai blaengynllunio oedd yn bennaf gyfrifol am hyn ond cytunodd i gynnwys datganiad o esboniad fel eglurhad. Roedd y Bwrdd yn hapus i dderbyn y cyfrifon gyda'r cafeat hwn.

Roedd TE a KL wedi bod i swyddfa Abertawe'r mis hwn i lunio rhestr eiddo ac adfer unrhyw ddogfennau pwysig i'w sganio. Mae'r cyfan ar y trywydd iawn erbyn hyn ar gyfer y diwrnod symud allan ar 9 Awst. Canmolodd TE KL am ei holl waith diwyd wrth drefnu hyn i gyd a threfnu storio ac ati.

Diolchodd SD i MP a TE am y diweddariadau pwyllgor.

3. Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

Cyflwynodd PM yr adroddiad o gyfarfod y pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2021.

Derbyniwyd llythyr gan Lywodraeth Cymru yn gofyn am sicrwydd ynghylch materion seiberddiogelwch. Ers hynny, mae KL wedi ymateb yn amlinellu'r cynnydd sydd wedi'i wneud yn y maes hwn ac yn enwebu PM, Cadeirydd y pwyllgor hwn i fod yn gyswllt a enwir ar gyfer seiberddiogelwch.

Mae'r holl gamau gweithredu a nodwyd gan yr Archwiliad Mewnol wedi'u cwblhau erbyn hyn. Diolchodd PM i'r tîm am wneud y gwaith hwn.

Roedd cofnodion y pwyllgor wedi nodi'n fanwl yr holl newidiadau i'r Gofrestr Risg, gan gynnwys ychwanegu'r risg seiberddiogelwch. Mewn ymateb i ymholiad gan JG, ystyriwyd y dylai'r mesurau lliniaru sydd ar waith o ran seiberddiogelwch ei ostwng o'r lefel uchaf o risg. Roedd y sefydliad wedi cyflawni ardystiad Hanfodion Seiber a Mwy yn ddiweddar ac roedd hyfforddiant perthnasol ar gael i aelodau'r Bwrdd.

Adroddodd KL ei bod, fel rhan o'r archwiliad TG mewnol, wedi ailedrych yn ddiweddar ar yr holl bolisiâu gyda Chymwysterau Cymru ac roedd y gyfres gyfan o

bolisiâu TG yn edrych yn hynod o gadarn erbyn hyn. Nodwyd bod gan **Cymwysterau Cymru gofrestri risg ar wahân y bydd TE a KL yn eu hystyried.** Holodd DP a oedd cyfrifon cyfryngau cymdeithasol wedi'u cynnwys yn y trafodaethau hyn a chadarnhaodd KL fod y polisi hwn wedi'i ailystyried.

Roedd yr Archwilwyr Mewnol wedi rhoi 'sicrwydd rhesymol' i'r sefydliad yn ddiweddar heb nodi unrhyw gamau gweithredu pellach a dim ond ychydig o sylwadau.

Cytunodd PM i adolygu'r adroddiad Archwilio Mewnol a'r cyngor gan TE a KL fel uchod a bydd yn **ailedrych ar y risg hon yng nghyfarfod nesaf y pwyllgor.**

Roedd Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd wedi'i adolygu yn y pwyllgor a theimlwyd bod y fframwaith hwn yn cryfhau ac yn mireinio'n barhaus wrth iddo esblygu. Ystyriwyd bod adroddiadau at wraidd y mater yn faes sylfaenol pwysig i'w drafod a'i herio. Roedd y cyfarfod diwethaf yn canolbwyntio'n agos ar ymgysylltu â rhanddeiliaid a chafwyd sgysiaid heriol ar y pwnc hwn. Bydd y cyfarfod nesaf yn edrych ar risgiau corfforaethol i sicrhau bod mesurau lliniaru cadarn ar waith a bod risgiau wedi'u categoreiddio'n briodol.

Holodd MR a ddylai pob risg fod yn goch neu a ddylid goddef neu drosglwyddo rhai. Diolchodd PM i MR am wneud y pwynt hwn a chytunodd i **herio TE ar lefelau risg cyn y cyfarfod nesaf.**

Soniodd MJ am baragraff 1 o gofnodion cyfarfodydd y pwyllgor a oedd yn amlinellu trafodaethau ynghylch gwrthdaro buddiannau. Teimlai MJ y dylid bod wedi rhoi mwy o bwyslais ar gytuno ar ddiffiniad o wrthdaro buddiannau i'w gyflwyno i'r Bwrdd. Roedd PM yn hyderus y byddai camau KL i ddadansoddi'r dogfennau lluosog hyn yn egluro'r mater hwn ac yn arwain at ddiffiniad a ffeirir.

Cyfeiriodd MJ at Baragraff 7 o'r cofnodion hyn hefyd a oedd yn amlinellu natur risgiau corfforaethol a sut y gallai fod angen goddef rhai risgiau. Teimlai MJ y dylai'r cofnodion fod wedi cynnwys mwy o fanylion am y cysyniad ehangach o risgiau. **Ailedrychir ar y cofnodion drafft yng nghyfarfod nesaf y pwyllgor.**

Roedd RJ yn falch o weld y ffordd rydym yn rheoli risgiau ac yn teimlo bod y rhestr gryno yn adnodd llawer mwy defnyddiol.

Diolchodd SD i PM am adroddiad manwl iawn a oedd wedi sbarduno sgysiaid diddorol iawn am risgiau.

4. Diweddariad ar y Cymdeithion

Croesawodd SD Karen Lawrence (KL) i'r cyfarfod. Rhoddodd KL gyflwyniad ar ei phrofiad fel aelod o Garfan 1 dros y tair blynedd diwethaf.

Cyn y penodiad hwn, roedd KL wedi teimlo mai ychydig o gymorth neu gyfle oedd ganddi, fel pennaeth sy'n gwasanaethu, ar gyfer datblygiad proffesiynol. Yna, amlinellodd KL yn frwdfrydig yr holl gyfleoedd a phrofiadau a gafodd fel Cydymaith megis cyfarfod a gweithio gydag arweinwyr ysbrydoledig a modelau rôl, hwyluso grwpiau a chymryd rhan mewn dadleuon diddorol sy'n ysgogi'r meddwl.

Roedd Carfan 1 wedi cael y dasg o gyd-adeiladu profiad y Cymdeithion hefyd ac roedd KL wedi'i weld yn brofiad heriol iawn ond hynod fuddiol. Pwysleisiodd KL bwysigrwydd datblygu protocolau a systemau arwain rhagorol i feithrin cenedlaethau o arweinwyr yn y dyfodol a theimlai'n freintiedig ei bod wedi bod yn rhan o hyn.

Roedd Carfan 1 wedi cynnal comisiwn ar degwch mewn arweinyddiaeth broffesiynol a llesiant a oedd yn defnyddio ymchwil genedlaethol a rhyngwladol. Roedd llawer o ganlyniadau cadarnhaol wedi deillio o hyn a bu'n gymorth i sicrhau bod rhaglenni arweinyddiaeth ledled Cymru o'r un ansawdd uchel. Roedd y ffocws ar lesiant wedi bod hyd yn oed yn fwy hanfodol yn ystod cyfnod y pandemig yn ddiweddar.

Amlinellodd KL y manteision personol a phroffesiynol yr oedd wedi'u profi yn ystod ei hamser fel Cydymaith. Rhoddodd ganmoliaeth uchel am ddatblygiad proffesiynol o safon, cefnogaeth rhwydwaith Cymru gyfan a'i chyfle i gymryd rhan yn y rhaglen hyfforddi.

I gloi, rhoddodd KL grynodedb o'r modd y mae'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol wedi esblygu dros y tair blynedd diwethaf a sut mae'n parhau i fod yn brif lais i'r proffesiwn. Diolchodd KL i'r Bwrdd am roi'r cyfle anhygoel hwn iddi ac roedd yn gobeithio parhau i fod yn rhan o'r sefydliad wrth symud ymlaen.

Diolchodd SD i KL am rannu ei myfyrdodau mor frwdfrydig ac am fod yn aelod mor ysbrydoledig o'r Garfan gyntaf. Cadarnhaodd SD bwysigrwydd cynnal cysylltiadau â Chymdeithion ac anogodd KL i gadw mewn cysylltiad.

Canmolodd DP KL am fod yn gyfathrebwr mor effeithiol a gobeithiai y byddai'n parhau i fod yn llysgennad da i'r sefydliad.

5. Adroddiad y Prif Weithredwr yn erbyn y Cynllun Corfforaethol

Dechreuodd TE drwy ystyried heriau a llwyddiannau'r flwyddyn ddiwethaf sydd wedi gweld y sefydliad yn cyrraedd ei gyflenwad llawn o staff gyda phenodiadau Rheolwr Cyfathrebu, Cyfarwyddwr Cynorthwyol a hefyd KL tra bod Kirsty Payne ar gyfnod mamolaeth. Ynghyd â'r tri secondiad mae hyn wedi ychwanegu gallu aruthrol at y sefydliad sydd wedi dod yn fwy seiliedig fyth ar lais y proffesiwn.

Mae gwaith Grŵp Strategaeth Cymru Gyfan ar gyfer Llesiant Arweinwyr wedi bod yn mynd rhagddo'n dda iawn. Mae TE wedi ymgymryd â'r gwaith hwn yn absenoldeb Dr Chris Lewis a'i nod yw cwblhau'r papur erbyn diwedd mis Gorffennaf.

Heddiw yw'r diwrnod olaf i Garfan 1 sydd i gyd wedi cael sgysiau proffesiynol gyda Mark Isherwood (MI) ac a fydd yn parhau i fod yn eiriolwyr brwd dros yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol. Mae MI yn ystyried eu hadborth i gyd-lunio cynllun y Cymdeithion wrth symud ymlaen. Cynhelir cyfweiliadau ar gyfer Carfan 4 yr wythnos nesaf.

O ran y ffrwd waith ar sicrhau ansawdd, mae pedair darpariaeth wedi bod yn llwyddiannus yng ngham 2 gyda 5 darpariaeth arall yn dod yn agos iawn. Mae'r gwaith monitro'n parhau gyda phawb sydd wedi cwblhau'r cylch cyntaf.

Mae cynnydd da yn cael ei wneud gyda gwaith ieuenctid. Mae'r gwaith hwn yn cael ei yrru ymlaen gan y secondai sy'n edrych ar fylchau mewn datblygu arweinyddiaeth yn y sector ar hyn o bryd. Drwy'r llwybr arloesi bydd y sector ieuenctid yn treialu rhaglen ieuenctid o fis Medi.

Mae'r sector ôl-16 yn dangos cynnydd arafach er bod cyfarfodydd mwy rheolaidd yn cael eu cynnal erbyn hyn. Mae penodi MI yn Gyfarwyddwr Cynorthwyol wedi bod o fudd gwirioneddol yma oherwydd ei wybodaeth a'i brofiad traws-sector. Gobeithir recriwtio penodiad secondai o'r sector hwn hefyd i sbarduno cynnydd ymhellach, ond bydd hyn yn amodol ar gyllidebau pellach.

Mae dwy gyfres arloesi wedi'u cwblhau'n llwyddiannus ac mae dau brosiect arloesi wedi dod ymlaen i'w cymeradwyo. Mae Leadership Unlocked wedi cwblhau pedair cyfres erbyn hyn ac mae'r bumed gyfres yn y cam cynllunio ar hyn o bryd, i'w rhyddhau ym mis Hydref. Mae'r ymateb i'r gweminarau wedi bod yn gadarnhaol iawn.

Mae paragraff 1.3 o'r adroddiad ar arweinyddiaeth system yn crynhoi cyfraniad enfawr y Cymdeithion wrth gynyddu capasiti'r sefydliad a hefyd hwyluso gwaith carfannau eraill. Dylai'r hyfforddiant ar hyfforddi fod yn adnodd defnyddiol iawn yn eu sefydliadau eu hunain hefyd. Lanswyd comisiwn gwerthfawr iawn Carfan 2 ar ddiwedd y tymor. Mae angen dosbarthu'r ddogfen ddilynol yn eang iawn a'i dilyn gan gamau pendant.

Gwnaeth RJ y Bwrdd yn ymwybodol o wrthdaro buddiannau yma gan ei bod bellach yn aelod o Cymdeithas yr Iaith Gymraeg. **Cytunodd RJ i gysylltu â'r Cadeirydd ynglŷn â hyn.**

Caiff argymhellion adroddiad ARAD eu hystyried dros yr haf i weld pa gamau y gellir eu cymryd wrth ddatblygu arweinyddiaeth system

O ran sicrhau ansawdd, mae gan y sefydliad Sicrwydd Ansawdd allanol o bob rhan o'r tair gwlad. Mae'r holl broses gymeradwyo wedi'i gwerthuso a bydd newid bach yn cael ei wneud cyn y rownd nesaf. Mae fforymau darparwyr bellach ar waith i alluogi'r Academi Arweinyddiaeth i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ddarparwyr am gymeradwyaeth. Bwriedir cynnal digwyddiad blynyddol hefyd, Gwerth Cymeradwyaeth, a fydd yn caniatáu i ddarparwyr rannu eu darpariaeth a gymeradwywyd gyda'r system ehangach.

Bydd rhanddeiliaid yn flaenoriaeth yn y flwyddyn i ddod. Mae MI wedi cyfarfod â rhanddeiliaid eto yn dilyn y mynd 'at wraidd y mater' yng nghyfarfod diwethaf y pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Bydd MI a KL yn edrych ar y ddogfen dros yr haf gyda'r bwriad o'i weithredu yn yr Hydref.

Mae TE wedi ymgymryd â'r gwaith ar Insight (Para 2.1) ac mae'r grŵp LPL yn cyfarfod yn wythnosol erbyn hyn. Mae hyn yn dal i ddangos yn goch ar yr adroddiad am fod TE wedi cael cyngor gan benaethiaid i aros tan fis Medi ar gyfer y lansiad. Mae TE yn fodlon y bydd hyn, yn dilyn newid cyfeiriad, yn diwallu anghenion y system yn awr ac yn cefnogi ysgolion yn y ffordd sydd ei hangen arnynt.

Gan barhau ar bwnc Insight (Para 2.2), cyfeiriodd TE at bapur yr Athro Alma Harris, sef y papur a lawrlwythwyd fwyaf ar y wefan. Bwriedir cynnal digwyddiad IPDA sy'n gysylltiedig â safonau proffesiynol yn nhymor yr Hydref lle bydd papur Ken Jones yn cael ei ystyried. Disgwylir y papur ar arweinyddiaeth dosturiol erbyn tymor yr Hydref a fydd yn gysylltiedig â Strategaeth Cymru Gyfan ar gyfer y gwaith ar lesiant arweinwyr.

Mae paragraff 2.3 yn cyfeirio at flaenoriaethau llesiant. Soniodd TE eto am lwyddiant 'Pen-i-ben' sydd wedi cael mwy o grwpiau Cymraeg eu hiaith yn ddiweddar. Bwriedir treialu hyn yn y sector ieuencid ac ystyried y ffordd orau o gefnogi arweinwyr ar gamau gyrfa eraill hefyd. Efallai y byddai'n werth ailystyried amseriad sesiynau hefyd i gynnwys ysgolion llai lle gall fod gan benaethiaid ymrwymadau addysgu.

Yna cyfeiriodd TE at y ffrwd waith gorfforaethol, gan dynnu sylw at gyflawniad diweddar y sefydliad o ran ennill ardystiad Seiberddiogelwch a Mwy. Yna cyfeiriodd TE at yr heriau parhaus o weithio o bell heb unrhyw swyddfa benodol. Bydd angen ystyried sut y gall y staff gyfarfod yn ddiogel wrth symud ymlaen, efallai gan ddefnyddio'r un man cyfarfod.

Canfu TE fod y sesiynau 'mynd at wraidd y mater' yn ddefnyddiol iawn gan fod y sgysiau manwl yn archwilio'r meysydd dan sylw yn drylwyr ac felly'n ychwanegu diben ychwanegol at waith y pwyllgor.

Cyfeiriodd TE at y dogfennau polisi (Para 3.2) a oedd wedi'u cynnwys gyda'r atodiadau. Diolchodd TE i KL am yr holl waith yr oedd wedi'i gwblhau ar y rhain mewn cyfnod mor fyr. Mae'r polisi gweithio gartref wedi'i adolygu a'i ddiweddarau ar ôl ymgynghori â'r staff. Mae'r staff wedi derbyn llythyr atodol erbyn hyn i gytuno i'r amodau newydd. Bydd TE yn gofyn am adborth gan staff ar y polisi Perfformiad a Datblygiad wedi'i ddiweddarau.

Canmolodd TE Charlotte Thomas (CT) am ei holl waith anhygoel ar farchnata. Mae'r wefan newydd wedi bod yn llwyddiannus iawn wrth gynyddu traffig a hefyd wrth fesur lawrlwythiadau ac ymweliadau â'r safle. Bu cynnydd amlwg mewn gwelededd ar draws yr holl gyfryngau cymdeithasol. Mae gwaith y prosiect ar y cyd â Llywodraeth Cymru wedi gwella gwelededd i'r sefydliad hefyd.

Pwysleisiodd TE bwysigrwydd gwerthuso'r holl waith sy'n digwydd yn barhaus. **Bydd canlyniadau'r Fframwaith Tystiolaeth yn cael eu rhannu yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd.**

Diolchodd SD i TE am ei hadroddiad manwl a oedd yn dangos tystiolaeth o'r gwaith rhagorol sy'n cael ei wneud ar draws y sefydliad. Diolchodd SD i'r is-bwyllgorau hefyd am eu cyfraniad at y gwaith hwn sydd wedi hwyluso'r cysylltiad rhwng strategaeth a gweithrediad yn well.

Holodd JG a oedd unrhyw gynlluniau i gynnwys llywodraethwyr mewn rhaglenni arweinyddiaeth. Byddai TE yn awyddus i ymgysylltu â llywodraethwyr wrth symud ymlaen a byddai Estyn yn cymeradwyo hyn. Ar hyn o bryd ni fyddai capasiti, ond gobeithiai TE y byddai un o'r Cymdeithion yn gallu ymgymryd â'r rôl hon yn y dyfodol.

Holodd MJ a oedd unrhyw batrymau daearyddol o ran ymgysylltu ledled Cymru. Cadarnhaodd TE y byddai CT yn gallu **adalw'r data hwn a bydd yn gofyn am y wybodaeth hon ar gyfer y cyfarfod nesaf.**

6. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf, Unrhyw Fater Arall a Chau

Ni chodwyd unrhyw fater arall. Diolchodd SD i holl aelodau'r Bwrdd am eu cyfraniadau i'r cyfarfod hwn a hefyd am eu holl waith caled dros y flwyddyn heriol hon a dymunodd wyliau haf pleserus a braf i bawb.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Bwrdd ddydd Gwener 8 Hydref pan roddir ystyriaeth i gynnal rhai cyfarfodydd wyneb yn wyneb.

Daeth y cyfarfod hwn i ben am 12.10pm.

Cofnod o'r Camau Gweithredu

Rhif.		Perchennog	Erbyn Pryd	Statws
153	Adolygiad blynyddol y cylch gorchwyl	Pawb	Hydref 2021	
169	Rhannu adroddiad ar arweinyddiaeth system gydag aelodau'r Bwrdd	TE	Hydref 2021	
172	Ystyried rhinweddau cael cofrestrau risg ar wahân	TE a KL	Medi 2021	
173	Ailedrych ar risg seiberddiogelwch yng nghyfarfod nesaf y pwyllgor	PM	Medi 2021	
174	Herio TE ar lefelau risg	PM	Medi 2021	
175	Ailedrych ar gofnodion drafft y pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg	Pwyllgor Aelodau	Medi 2021	
176	Cysylltu â Chadeirydd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg	RJ	Awst 2021	
177	Rhannu canlyniadau'r Fframwaith Tystiolaeth	TE	Hydref 2021	
178	Rhannu manylion am ymgysylltu daearyddol	TE	Hydref 2021	